

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, Rhagfyr 5ed 2017 yn Neuadd Mynach. Yn bresennol oedd Gwenda Morris (Cadeiryddes), Gary Thomas, Alwyn Jones, Iolo Evans, Eifion Davies, Maldwyn Jones, Gwynedd Jones, y Cyng. Elwyn Edwards a'r cler.

Derbyniwyd ymddiheuriad gan. Gwenda Evans, Eilir Rowlands, Dewi Pritchard, Gethin Morris a Rita Jones.

Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Tachwedd a chafwyd yn gywir.

i) Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

ii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Cofeb Rhyfel Llandderfel.

Eglurodd y cler fod James Cyf, Trawsfynydd yn bwriadu atgyweirio'r gofeb yn yr wythnosau nesa.

b) Panel Annibynnol Cymru- Adroddiad Blynyddol Drafft ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2018/19.

Yn dilyn ymholiadau gan y cler cafwyd cadarnhad y gallai'r cynghorwyr barhau i optio allan o dderbyn tal am gostau a threuliau unwaith fydd yr adroddiad wedi cael ei fabwysiadu yn swyddogol.

c) Ymateb Cyngor Gwynedd i'r cwynion o'r cyfarfodydd diwethaf:-

i) Pont Fawr, Llandderfel – roedd cynlluniau mewn lle i drwsio'r difrod.

ii) Torri glaswellt ar ochrau'r ffordd o Four Crosses i'r Tollgate - roedd yr arolygwr priffyrdd wedi trefnu i'r ffordd cael ei ysgubo cyn ymgymryd â'r gwaith o glirio'r ffosydd.

iii) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Un Llais Cymru

i) Copi o gofnodion cyfarfod mis Medi Pwyllgor Ardal Meirionnydd.

b) Cyngor Iechyd Cymuned

i) Adolygiad Blynyddol Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru – cyfle i'r Cyngor anfon adborth.

c) Cyngor Gwynedd

i) Rhaglen Waith yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ar gyfer mis Rhagfyr.

ch) Grŵp Cynefin

i) Cais i ddsbarthu gwybodaeth am y tŷ oedd ar gael i'w osod yn Maes y Priordy, Llandderfel.

d) Llywodraeth Cymru

i) Llythyr yn ein hysbysu o'r 'Swm Priodol o dan Adran 137o ddeddf Llywodraethol Leol 1972'

iv) Ceisiadau Cynllunio.

a) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol ac yn dilyn trafodaeth cytunwyd i'w cefnogi:-

C17/1158/04/RG – Cais i waredu gwrych. B4401 rhwng Bryn Tirion Inn a Tyddyn Inco, Llandderfel

C17/1168/04/LL – Cais i adeiladu ar gyfer storio deunyddau amaethyddol a gwaith cysylltiol. Pen yr Allt, Cwm Main.

b) Derbyniwyd yr ymgynghoriad cyn gwneud cais canlynol:-

Cais i godi mast ffonau symudol newydd yn 'Lyn View', Frongoch. Nid oedd gan y cynghorwyr unrhyw wrthwynebiad i'r cais ei hun ond nodwyd y diffyg ymdrech gan yr ymgeisydd i ddarganfod a defnyddio'r enw cywir i'r safle.

viii) Materion Ariannol

a) Cyllideb a Praesept 2018/19

Cafwyd braslun o'r gyllideb gan y clerc. Cytunwyd i godi cyflog y clerc (gweler isod) a'r cyfraniadau i'r ysgolion. Gan fod newidiadau yn y trefniadau archwilio'r cyfrifon roedd angen cynyddu'r gwariant yn y gyllideb. Gan na fu cynnydd sylweddol yn y costau torri glaswellt yn y mynwentydd na chostau etholiad yn 2017-18 mi fyddai arian ychwanegol tu cefn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol cytunwyd i leihau'r Praesept ar gyfer 2018-19. Trafodwyd y swm o arian a gadwi'r wrth gefn a chytunwyd bod angen cadw'r £8,000 a dderbyniwyd am werthiant yr hawl tramwy ym mynwent Llanfor yn 2014 ar gyfer costau cynnal a chadw'r mynwentydd ac unrhyw brosiectau arbennig yn y gymuned. Amcangyfrif y byddai oddeutu £7,600 o arian yn y cyfri cyfredol ar ddiwedd mis Mawrth 2018 a chytunwyd y byddai angen cadw swm fel hyn ar gyfer unrhyw golledion sylweddol a allai godi yn gyfrifon blynyddol y mynwentydd (roedd y clerc yn rhagweld colled eleni). Cytunwyd ar y gyllideb derfynol a phasiwyd i osod y Praesept o £9,000 ar gyfer 2018-19.

b) Adolygu cyflog y clerc.

Adolygwyd cyflog y clerc a chytunwyd i'w godi o ddechrau Ebrill 2018.

c) Archwiliad Allanol 2017/18

Roedd y clerc wedi derbyn neges yn cadarnhau na fyddai Mr John Roberts yn parhau i archwilio cyfrifon y cynghorau cymuned. Cytunwyd yn unfrydol i anfon llythyr i ddiolch iddo am ei gyngor a'i gymorth ar hyd y blynyddoedd. Adroddodd y clerc fod nifer o'r cynghorau cymuned yn bwriadu defnyddio gwasanaethau'r Adran Archwilio Cyngor Gwynedd i archwilio'r cyfrifon. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i gynnig y gwaith o archwilio'r cyfrifon iddynt gan y byddant yn ymwybodol o'r rheoliadau perthnasol ac yn sicrhau fod y Cyngor yn cyrraedd yr holl ofynion.

ch) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

i) Dylan Thomas (mynwent Llandderfel), Bethan Jones (cyflog Hyd-Rhag), TWE, Partneriaeth Penllyn (costau gweinyddol) - £556.50

d) Ceisiadau ariannol

Derbyniwyd cais ariannol gan Croes Goch Brydeinig. Cytunwyd i'w drafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

v) Unrhyw Fater Arall.

Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwynion canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol:-

a) Dwr yn casglu ger mynedfa Bryn Ethol, Cefnddwysarn ac ar ochr y ffordd ger Bryn Awelon, Cefnddwysarn.

b) Roedd y cynghorwyr yn pryderu am y goeden oedd yn pwyso ar y wal ger y Gofeb Rhyfel, Llandderfel.

c) Canghennau coed mewn peryg o ddisgyn i'r ffordd ger Caletwr, Llandderfel.

ch) Roedd arwyddion wedi cael ei gosod ger y cattle grid ar yr B4391 Bala i Llangynnog a gofynnwyd i'r clerc holi pryd y byddai'n cael ei drwsio.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth,
Chwefror 6ed yn Neuadd Myanch am 7.30 y.h.**